Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 28.06.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Angen bod yn wyliadwrus wrth i achosion godi

Mae achosion COVID-19 ar gynnydd wrth i is-amrywiolion BA.4 a BA.5 ddod i'r amlwg. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn ymestyn mynediad i brofion llif unffordd (LFT) am ddim yng Nghymru tan 31 Gorffennaf 2022. Gellir dod o hyd i'r cyhoeddiad yn:

https://llyw.cymru/cymru-yn-ymestyn-profion-covid-19-drwy-gydol-mis-gorffennaf

Dylai unrhyw un sydd ag unrhyw un o brif symptomau COVID-19 (tymheredd uchel, peswch parhaus neu golled, neu newid, blas

neu arogl) hunanynysu a chymryd prawf LFT. Mae gwybodaeth am sut i archebu pecyn LFT ar gael yma:

https://llyw.cymru/canllawiau-hunanynysu#section-38154

Helpwch i leihau effaith COVID-19 ar eich busnes drwy ddilyn y cyngor hwn ac annog unrhyw un sy'n gweithio i chi wneud hynny.

- Mae poteli 5 litr o gel diheintio dwylo yn parhau i fod ar gael am ddim gan Gyngor Gwynedd (dylid eu defnyddio cyn mis Medi 2022), a gall y Cyngor eu darparu'n uniongyrchol i'ch busnes. Cysylltwch â: PPEcymunedol@gwynedd.llyw.cymru gan nodi eich enw, rhif ffôn cyswllt, cyfeiriad ar gyfer danfon y nwyddau (gan gynnwys cod post), amseroedd o'r wythnos y bydd rhywun yn y lleoliad a'r nifer o foteli sydd eu hangen.

# CYFLOGAETH: Canllawiau i fusnesau sy'n cynnig gwaith i bobl sy'n dod o'r Wcráin

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi canllawiau i fusnesau sydd am gyflogi pobl sy'n dod i'r DU o'r Wcráin. I ddysgu mwy ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/guidance-for-businesses-offering-work-to-people-coming-from-ukraine

# RECRIWTIO: Crewyr Profiad – Gweithio ym maes twristiaeth a lletygarwch

Mae ymgyrch Croeso Cymru – Crewyr Profiad – yn cefnogi'r sector twristiaeth a lletygarwch drwy dynnu sylw at gyfleoedd gyrfa ac annog pobl i fanteisio ar swyddi gwag. Mae asedau ymgyrchu a phecyn cymorth i helpu busnesau i recriwtio staff ar gael ar:

https://bit.ly/3tZJ5mD

Mae gwybodaeth gyffredinol am yr ymgyrch, yn ogystal â ffilmiau astudiaeth achos, ar gael ar:

https://cymrungweithio.llyw.cymru/newid-dy-stori/gweithio-ym-maes-twristiaeth-a-lletygarwch

# DIGWYDDIAD: Cofi'n Creu Busnes! 7 Gorffennaf 2022

Mae digwyddiad Cofi'n Creu Busnes!, i'w gynnal yng ngofod gwneud Ffiws dros dro M-SParc #ArYLôn yn 18 Stryd y Plas, Caernarfon, ar 7 Gorffennaf 2022 (9:30am-4:00pm), ar gyfer unigolion 15-18 mlwydd oed sydd â diddordeb dechrau eu busnes eu hunain. Bydd cyfle hefyd i ddysgu am ddefnyddio'r offer a meddalwedd Ffiws. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3xRRSYo

# IECHYD A DIOGELWCH: Sicrhewch fod eich digwyddiad yn cael ei gynnal yn ddiogel yr haf hwn

Mae arweiniad i drefnwyr digwyddiadau ar sut i gynllunio, rheoli a monitro digwyddiadau, i sicrhau nad yw gweithwyr, a'r cyhoedd sy'n ymweld, yn agored i risgiau iechyd a diogelwch ar gael ar:

https://www.hse.gov.uk/event-safety/index.htm

# CEFNOGAETH: Cyflymydd NatWest

Os ydych chi'n fusnes sydd ag uchelgais i ehangu – yn edrych i adeiladu eich tîm, mentro i farchnadoedd newydd neu'n chwilio am fuddsoddiad pellach – gallai'r rhaglen Cyflymydd NatWest am ddim eich helpu i ennill y wybodaeth a'r sgiliau i ragori mewn amrywiaeth o feysydd busnes. Mae'r rhaglenni Cyflymydd presennol yn agored i bob perchennog busnes, nid oes rhaid i chi fod yn gwsmer NatWest. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.natwest.com/business/business-services/entrepreneur-accelerator.html

# ARIANNU: Coedwig Genedlaethol Cymru – Y Grant Buddsoddi mewn Coetir (Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol – Cylch 1)

Mae’r Grant Buddsoddi mewn Coetir yn rhan o raglen y Goedwig Genedlaethol i Gymru, ac yn rhoi help ariannol i greu coetir newydd a/neu wella’r coetiroedd sy’n bod, sy’n bodloni safonau’r Goedwig Genedlaethol. Mae cyfnod newydd o ariannu wedi agor ar 13 Mehefin 2022. Am ragor o wybodaeth am y cynllun a sut i wneud cais, ewch i:

https://llyw.cymru/coedwig-genedlaethol-i-gymru-y-grant-buddsoddi-mewn-coetir-cronfa-treftadaeth-y-loteri-genedlaethol

# TRETH: Diweddariad CThEM ar gyfer cyflogwyr – trothwyon NIC cyflogres mis Gorffennaf

Ar 23 Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai trothwyon Yswiriant Gwladol yn cynyddu o 6 Gorffennaf 2022 ymlaen. Er mwyn sicrhau bod y trothwyon NIC uwch yn cael eu hadlewyrchu yn gywir yng nghyflogres mis Gorffennaf, bydd angen diweddaru meddalwedd cyflogres, gan gynnwys Offer TWE Sylfaenol CThEM – gall hyn ddigwydd yn awtomatig, neu efallai y bydd angen gweithredu. Mae rhagor o fanylion ar gael ar:

https://bit.ly/3yoMRba

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i’w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru